

Rhwydwaith Arddangos


Forest Coalpit: Pa effaith gaiff diet gwahanol ar ansawdd porc?

Yn 2021, sefydlodd Cyswllt Ffermio, Menter Moch Cymru a Fferm Forest Coalpit arbrawf i gymharu ansawdd cig moch wedi'u pesgi mewn padog llawn porthiant gyda moch wedi'u pesgi mewn padog moel. Roedd proffil asid brasterog y porc a gynhyrchwyd o ddi-ddordeb arbennig. Dim ond hesbinychod a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arbrawf, felly nid yw gwahaniaethau rhyw yn effeithio ar y set ddata. Cafodd y moch eu paru a'u rhannu'n grwpiau a neilltuwyd ar hap: Grŵp 1 = 10 hesbinwch – Bwyd safonol a phadog moel: Grŵp 2 = 9 hesbinwch – Bwyd safonol a phadog â phorthiant. Cyfyngwyd ychydig ar y dwysfwyd i annog y moch i fwyta'r porthiant. Cyfyngwyd ar y dwysfwyd yn achos y ddau grŵp, ac roedd 2 kg/diwrnod/pen ar gael i'r anifeiliaid.

Roedd prif ganfyddiadau'r asesiadau a gynhaliwyd yn dangos bod y porc a fagwyd mewn padog llawn porthiant yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn asid α -Linolenig (ALA), o'i gymharu â'r porc a fagwyd mewn padog moel. Ni all moch syntheseiddio ALA, felly mae'r cynnydd yn yr asid brasterog hanfodol n-3 neu omega-3 yn ganlyniad uniongyrchol i ychwanegu porthiant at y diet. Mae manteision niferus i'r treuliwr dynol yn sgil bwyta cynhyrchion sy'n cynnwys ALA (er enghraifft, atal trawiad ar y galon, gostwng pwysedd gwaed uchel a cholesterol a gwrthdroi caledu'r pibellau gwaed). Mae astudiaethau wedi dangos, trwy drin porthiant (hynny yw, ychwanegu olew pysgod/planhigion/hadau), ei bod hi'n bosibl gwneud porc yn fwyd swyddogaethol oherwydd cynnwys omega-3 ac omega-6. Mae angen gwneud rhagor o waith i weld a all gwahanol fathau o wndwn porthiant wella ansawdd y cig ymhellach. Mae maint sampl yr asesiadau yn gymharol fach, sef 10 anifail mewn un grŵp a naw yn y llall. Er mwyn dod i gasgliadau pellach ynghylch effaith porthiant ar ansawdd cig, byddai angen set ddata fwy.

Fferm Ffosygravel: Gwerthuso potensial defnyddio technoleg lloeren mewn system bori a reolir

Mae delweddau lloeren yn cynnig arf posib ar gyfer mesur glaswellt i gynorthwyo ffermwyr wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu a defnyddio glaswellt. Mae mesur glaswellt gan ddefnyddio dyfeisiau llaw a cherdded y caeau yn cymryd llawer iawn o amser, ac yn un o'r prif rwystrau i ffermwyr fod eisiau casglu data ar dyfiant glaswellt. Mae'r dechnoleg hon yn cynnig yr opsiwn o gasglu'r data heb fod angen rhoi'r un droed yn y cae. Mae pob tunnell ychwanegol o ddeunydd sych (DM) a ddefnyddir fesul hectar (ha) yn werth £334 y flwyddyn i ffermydd llaeth, gan amlygu manteision cyrchu'r data hwn i lywio penderfyniadau rheoli. Mae rhan sylweddol o'r llwyfan pori ar fferm Ffosygravel, yng Ngogledd Ceredigion, ar dir llethrog. Defnyddiwyd yr adnodd Ruumi i dreialu effeithiolrwydd delweddau lloeren o ran rhagfynegi faint o laswellt (Gorchudd Fferm Cyfartalog) sydd ar gael mewn padogau trwy gydol y tymor. Yn gyffredinol, roedd mesuriadau o ddelweddau lloeren yn rhoi cynrychiolaeth dda o Orchudd Cyfartalog y Fferm, gyda gwahaniaeth cyfartalog o 82 kg/DM/ha (Ffigwr 1). Fodd bynnag, roedd gorchudd y caeau unigol yn dangos mwy o amrywiad rhwng ffigyrau a oedd yn effeithio ar benderfyniadau rheoli pori. Mae angen gwneud mwy o ymchwil i edrych ar effaith llethrau ar ddarlenniadau lloeren, a allai gael mwy o effaith ar gywirdeb.



Ffigwr 1: Cymharu mesuriadau gorchudd fferm cyfartalog gan ddarlenniadau meddalwedd lloeren a mesurydd plât.

EIP Cymru

Lleihau allyriadau amonia o systemau cynhyrchu brwyliaid



Mae'r DU wedi ymrwymo i sicrhau lleihad o 16% mewn allyriadau amonia erbyn 2030, o'i gymharu â lefelau 2005, ac felly mae llawer o sylw ar y sector dofednod. Mae'r defnydd o gynhyrchion ychwanegol a gyflenwir trwy ddŵr yfed, a ddefnyddir ar hyn o bryd yn bennaf i wella iechyd perfformiad a pherfformiad y ddiadell, wedi'i awgrymu fel ffordd ychwanegol o leihau allyriadau amonia a gynhyrchir gan siediau dofednod.

Rhwng 2010 a 2021, cymerodd dwy fferm brwyliaid fasnachol yng Nghymru ran mewn prosiect i werthuso perfformiad tri chynnyrch gwahanol.

Defnyddiwyd y tri chynnyrch canlynol, pob un ar gyfer un gylchred brwyliaid cyfan ar bob fferm:

- Biocomplex gan Ekogea (cynnyrch sy'n deillio o algâu morol)
- Herban (cynnyrch yn seiliedig ar olew hanfodol organwm)
- Searup gan Olmix (cynnyrch a ddatblygwyd hefyd o ffynonellau morol)

Y prif ganfyddiadau:

- Roedd ffactorau allyriadau amonia (kg fesul sied adar y flwyddyn) yn debyg iawn yn y sied reoli a'r sied brawf, heb unrhyw wahaniaeth arwyddocaol.
- Nid oedd unrhyw effaith sylweddol ar gyflwr y gwasarn.
- Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ym mharamedrau perfformiad yr adar.

Er na ddarparodd y prosiect dystiolaeth bod y tri chynnyrch wedi cael effaith gyffredinol ar allyriadau amonia, amlygodd rai anawsterau posibl wrth gyfrifo ffactorau allyriadau amonia. Mae'r ddau ffermwr a fu'n cymryd rhan bellach yn gweithredu systemau monitro amonia mewn un sied, ac yn bwriadu parhau i'w defnyddio ar gyfer eu hastudiaethau ychwanegol eu hunain. Gallai'r rhain gynnwys dulliau gwahanol o'u defnyddio, megis niwlen o fewn y sied, eu defnyddio gyda bwyd a thriniaethau gwasarn.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth William Sawday, Rhagfyr 2021

Pwnc: Ffermio Adfywiol – Da Byw

Gwlad: DU






Ffigwr 2. William Sawday a gwblhaodd ei raglen cyfnewidfa rheolaeth ar diwedd 2021.

Cwblhaodd Will ei raglen cyfnewidfa rheolaeth ar ddiwedd 2021. Roedd gan Will nodau clir ar gyfer ei gyfnewidfa rheolaeth, ac yn ystod ei ymweliadau, datblygodd well ddealltwriaeth o egwyddorion craidd a manteision ffermio adfywiol. Roedd Will hefyd yn awyddus i ddeall canlyniadau gorau a dymunol y systemau hyn, yn ogystal â'r ddynamig rhwng iechyd y pridd, planhigion, anifeiliaid a phobl, a sut i wella'r rhain trwy ffermio adfywiol.

O'r profiadau a'r wybodaeth a gafodd yn ystod ei deithiau, mae Will wedi rhoi newidiadau ar waith i'w fferm, ac mae eisoes yn gweld y manteision yn dilyn ei gyfranogiad yn y Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

-  CRYPTOSPORIDIWM A DA BYW FEL PERYGLON MILHEINTIOL
-  DULLIAU O GANFOD BUCHOD CYFLO MEWN GWARTHEG LLAETH
-  SUT MAE GWYNDONNYDD LLYSIEUOL YN EFFEITHIO AR IECHYD A PHERFFORMIAD WŶYN SY'N PORI

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd **11** o unigolion gefnogaeth un-i-un drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd **98** o unigolion o fewn **26** grŵp gefnogaeth drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarparu'r Gwasanaeth Cyngori hwn:

“Da iawn”

“Gwybodaeth ddefnyddiol iawn”

Grwpiau trafod



Roedd aelodau o grŵp trafod defaid Sir Benfro wedi cymryd rhan mewn prosiect colostrwm yn ystod y cyfnod wyna blaenorol; canolbwyntiodd y cyfarfod hwn ar adolygu canlyniadau'r prosiect.

Bu'r grŵp yn lwcus i gael cwmni Fiona Lovatt, Flock Health, a oedd yn gyfrifol am gynnal y prosiect. Eglurodd Fiona fod tri phrif ffactor i sicrhau wyna llwyddiannus: amddiffyn, cynllunio ac atal. O ran yr elfen 'amddiffyn', dylai mamogiaid fod yn iach ac wedi'u bwydo'n dda, wedi'u brechu'n llawn, ddim yn gloff, ac yn lân, gyda'u caglau wedi'u tynnu. Ar gyfer 'cynllunio', dylid dadansoddi porthiant a llunio diet o ansawdd; cynyddu colostrwm a lleihau straen i wŷn newydd-anedig a monitro ansawdd colostrwm a throsglwyddiad. Mae 'atal' yn canolbwyntio ar hylendid, gan sicrhau digon o gysgod os yn wyna y tu allan, neu sied lân heb ddrafft, digon o wasarn ffres, glanhau a diheintio'r holl offer a throi allan cyn gynted â phosib.

Dyweddodd Fiona fod dwy ran hanfodol i golostrwm – imiwnoglobwlin (Ig) ac egni. Mae astudiaethau newydd wedi dangos bod colostrwm mamogiaid bellach o ansawdd gwahanol i'r hyn a dybiwyd yn flaenorol: yn hytrach na bod colostrwm yn 20g Ig/litr adeg wyna, credir bod 26.5 yn ffigur mwy cywir. Mae angen 20g o Ig ar oen 4 kg cyn gynted â phosib ar gyfer trosglwyddiad goddefol a digonol o wrthgyrff, felly dylai ffermwyr ddilyn y mantra uchod a sicrhau bod pob oen yn derbyn 50ml/kg o golostrwm mor fuan â phosib, a hyd at 200ml/kg o fewn 24 awr.

Roedd prif ganfyddiadau'r prosiect colostrwm yn dangos bod colostrwm mamogiaid o ansawdd da, yn enwedig o'i gymharu â chynhyrchion colostrwm ar ffurf powdr. A dweud y gwir, dangosodd yr astudiaeth fod hyd yn oed colostrwm gwael gan famog yn well na phowdr. Roedd gan famogiaid tenau a hen oedd yn cario dim ond un oen golostrwm gwaelach nag eraill yn y prosiect, yn ogystal â'r rheiny gydag wŷn marw, a mamogiaid oedd yn anoddach eu godro. Canfu fod porthiant yn bwysig iawn, gyda mamogiaid oedd â mwy o le bwydo yn cynhyrchu colostrwm o ansawdd gwell, yn ogystal â'r rhai a dderbyniodd porthiant atodol yn briodol. Roedd lefelau protein mewn silwair yn bwysig, gan fod mamogiaid a dderbyniodd silwair â phrotein crai uwch yn cynhyrchu colostrwm gwell. Dywedodd Fiona mai cael y bwydo'n iawn o bosib yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar ansawdd colostrwm, ac anogodd yr aelodau i ddadansoddi eu silwair er mwyn helpu i lunio'r dognau mwyaf addas ar gyfer eu mamogiaid.

Dyweddodd Fiona fod angen bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau oherwydd bod llawer o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau i'w gweld ar lefel fferm, yn hytrach nag ar lefel mamog.

FCTV – Wyna

Yn y rhaglen yma byddwn yn ymweld ag yn dod a'r newyddion diwedddara am rhai o brosiectau o fewn ein Rhwydwaith o Ffermydd Arddangos gan gynnwys lleihau prolapse a mastitis ynghyd ac asesu safon colostrwm yn y ddiadell.

Cliciwch [yma](#) i weld y bennod.



Gweminarau



CYNHALIUYD **18** O WEMINARAU gyda  **480** O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o weminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Manteision ac anfanteision cytundebau magu llooi a diddyfnu lloeau
- Bwydo'r famog i baratoi ar gyfer wyna
- Prif awgrymiadau ar gyfer bwydo eich gwartheg biff dros y gaeaf
- Iechyd mamogiaid cyn wyna

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



40 O GWEITHDAI gyda  **522** YMWELWYR

Enghreifftiau o weithdai a gynhaliwyd:

Ymwrthedd i Wrthfotigau



Iechyd Stoc Ifanc



Cloffni mewn Defaid



Colli Wŷn Rhan 1: Erthylu a Maeth

Colli Wŷn Rhan 2: Colli wŷn ar ôl wyna rhwng geni a diddyfnu



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

WYNA SYLFAENOL



MAETH MAMOGIAID



RHEOLI LLYNGYR YR IAU



CLOFFNI GWARTHEG



Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer o unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn
DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)	62
Trimio Traed Gwartheg	48
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	24
Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel	19
Rheoli Llygod ar Ffermydd	15